**COFNOD O BENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU – 17 MEDI 2020**

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr** – G Thomas (Cadeirydd), JP Blundell, N Burnett, JE Lewis, D Lewis, AJ Williams, S Dendy, JC Spanswick, R Stirman, M Voisey, C Webster, KJ Watts, K Edwards

**Swyddogion** – J Parsons, R Jones, R Davies, C Flower, MA Galvin, M Pitman, P Thomas, R Morgan, L Tuck, C Hamm

**Siaradwyr Cyhoeddus -** C Evans (Gwrthwynebydd), S Grey (Ymgeisydd)

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb** – Y Cynghorwyr J Radcliffe, R Collins, RM Granville, ac M Kearn

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **P/19/915/RES**<br>**Tir i'r gorllewin o Ffordd Maesteg, Tondu** |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau. |
| Teitl yr Adroddiad | **P/20/285/RLX**<br>**Tir ar yr hen gae chwarae, Fountain Road, Abercynffig** |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau. |
| Teitl yr Adroddiad | **P/20/159/BCB**<br>**Plot 50a, Ystad Ddiwydiannol Village Farm, y Pîl** |
| Penderfyniad a Wnaed | At ddibenion Rheoliad 4 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref 1992, cymerir bod caniatâd wedi'i roi ar gyfer y cais uchod, yn amodol ar yr Amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau. |
| Teitl yr Adroddiad | **P/19/674/RLX**<br>**Tir oddi ar Parc Crescent**, Ystad Ddiwydiannol Waterton, (Storewithus) Pen-y-bont ar Ogwr |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod y cais yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau. |
| Teitl yr Adroddiad | **Apeliadau** |
| Penderfyniad a Wnaed | 1. Bod yr Apeliadau a dderbyniwyd, fel y'u rhestrir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, yn cael eu nodi.<br><br>2. Dylid nodi'r Penderfyniadau Apeliadau canlynol, fel y'u nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, a benderfynwyd gan yr Arolygwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor:-<br><br>(a) A/20/3245529 (1886) – Tri thŷ pâr o anheddau 3 |

| | |
|---|---|
| | ystafell wely (cyfanswm o 6 annedd) gyda thir parcio ceir ar eu cyfer i'r gogledd o 12 Bridgend Road, Pontycymmer – Gwrthodwyd yr Apêl.<br>(b) A/20/3246041 (1887) – Adeiladu 41 o anheddau preswyl fforddiadwy gyda mannau parcio ar y safle, mynedfa, a gwaith cysylltiedig – Tir i'r de o Wyndham Close, Ystad Ddiwydiannol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr – Gwrthodwyd yr Apêl<br>(c) A/20/3246041 (1891) – Cais amlinellol am hyd at 9 annedd a gwaith cysylltiedig, Tir oddi ar Tondu Road, i'r Gogledd o Pascoes Avenue, Pen-y-bont ar Ogwr. – Gwrthodwyd yr apêl (a gwrthodwyd y cais am gostau.)<br>(d) D/20/3253435 (1893) – Estyniad llawr cyntaf uwchben Anecs ochr bresennol, 7 Park Avenue, Porthcawl – Gwrthodwyd yr apêl. |
| Teitl yr Adroddiad | **Diwygiadau dros dro i Brotocol Ymweld â Safle'r Pwyllgor Rheoli Datblygu** |
| Penderfyniad a Wnaed | (1) Bod yr Aelodau wedi cytuno ar y newid dros dro i'r Cod Ymarfer mewn perthynas ag ymweliadau safle gan Bwyllgorau, ac yn cytuno lle bo angen i sefydlu paneli ymweliadau safle estynedig, ac i roi awdurdod i Reolwr y Grŵp Cynllunio a Gwasanaethau Datblygu a'r<br>Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu i wneud y trefniadau angenrheidiol ar y cyd â'r Cadeirydd. Disgwylir enwebiadau gan Aelodau'r Pwyllgor ar gyfer yr uchod.<br>(2) Cytunwyd hefyd na ddylai'r newid dros dro barhau am gyfnod hwy na 12 mis o ddyddiad y penderfyniad, neu pan gaiff cyfyngiadau Covid-19 eu codi, pa bynnag un ddaw gyntaf. |
| Teitl yr Adroddiad | **Ardal Gadwraeth Nant-y-moel Erthygl 4 (2) Cyfarwyddyd** |
| Penderfyniad a Wnaed | (1) Nododd yr Aelodau fod y Cyfarwyddyd o dan Erthygl 4 (2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, i gymryd hawliau datblygu a ganiateir oddi wrth y perchnogion a'r deiliaid tai annedd hynny a gynhwysir yn Ardal Gadwraeth Nant-y-moel o dan y telerau a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, wedi'i gadarnhau heb ei addasu ar 8 Mehefin 2020.<br>(2) Bod y Pwyllgor yn mabwysiadu'r daflen ganllaw yn Atodiad 3 yr adroddiad, at ddibenion Rheoli Datblygu. |